

Eisteddfod Powys, Bro Ddyfi 2016: Beirniadaeth Y Gadair

Daeth 21 cystadleuydd i'r ffau eleni, nifer iach iawn, chwarae teg. 'Llwybrau' oedd y testun, a braf oedd gweld cymaint o lwybrau cyffrous, dychmygus yn cael eu troedio dros gwrs y cerddi hyn. Braf hefyd oedd gweld mor uchel oedd safon y cerddi - yn wir roewddwn mewn cyfyng gyngor am amser hir wrth ystyried pwy i'w gadeirio.

Mi ddywedaf air byr am y cystadleuwyr yn y drefn y daethon nhw allan o'r pac - cyn troi at y tri uchaf 'chydig yn fwy manwl.

Ifana Goch oedd y bardd cyntaf. Dyma gerdd fer hyfryd yn canu i 'eigiau' y moroedd ac i fyd natur. Mae gan Ifana Goch ddawn delynegol heb os ond weithiau nid oeddwn yn siwr i ba gyfeiriad oedd yn gerdd yn mynd iddo. Roedd y gerdd hytrach yn fyr i ennill y Gadair mewn cystadleuaeth cyn gryfed â hon.

Cyfres o gerddi rhydd yn dechrau gyda 'cau dy lygaid' ysgrifennodd **Y Wennol**. Dyma fardd sy'n poeni am newid hinsawdd ac am gartrefi Cymru'n troi yn dai gwyliau. Dyma gerdd ddi-obaith ac eto cerdd swynol iawn - hoffais: 'a dwylo'r delyn yn wylo titrwm tristwch' yn fawr iawn. Mae 'na un neu ddau o lithriadau iaith sy'n biti achos mae 'na ganu hardd iawn yma.

Dechrau mewn mynwent mae **Bryngaer**, a cherdd grefyddol a gawn ganddo yn sôn am daith y doethion a stori'r Iesu sydd yma hyd y gwelaf i. Ond mae ychydig o ddweud amhenodol yma hefyd sy'n ei gwneud hi'n anodd dilyn ei drwydd ar brydiau. Ond mae 'na fardd yma gyda dawn dweud a dawn drosiadol heb os.

Eiddo **Ael-y-Bryn** yw'r gerdd nesa, sy'n ennill y wobr am y gerdd hiraf heb os - 8 tudalen yn wir! Mae Ael-y-Bryn yn canu'n annwyl ac yn ddi-dwyll i'w filltir sgwâr, ac mae yma ddarn cofiadwy am ei blentyndod hefyd. Mae'r syniad o'i DNA ar wasgar hyd y fro yn dwyn syniad TH.Parry-Williams i go'.

Cyfres o dribannau ysgrifennodd **Mererid** ac mae'n canu'n benodol i Gapel Blaencaron yn Nhregaron. Er gwaetha'i hoffter o'r hen le, mae'n tristáu bod 'diwedd pennod' wedi dod ar grefydd yn yr ardal, a bod yr allor, erbyn hyn, yn unig.

Canu mawl i Landdewi Brefi wna **Dilys** - ac rydym yn dod i ddeall bod yr ardal yn baradwys i'r bardd. Mae 'na ganu telynegol da yma, ond mae rhai darnau mwy llac hefyd. Efallai y byddai amrywio'r mydr yn fwy wedi bod o gymorth.

Cerdd **Merch y Mynydd** sydd nesaf, a dwi'n rhyw amau mai'r un bardd yw Mererid, Dilys a Merch y Mynydd - mae 'na themâu ac arddull tebyg iawn rhwng y tair cerdd! Dyma gerdd arall sy'n gresynu nad yw'n tai addoli ni'r un mor llawn ag yr oedden nhw gynt - ond y tro hwn rydym yn gorffen ar nodyn mwy gobeithiol, ac y gwelwn rhywddydd y capeli'n ffynnu eto - hynny ar ddauganmlwyddiant Capel Soar y Mynydd.

Awdl deyrnged i'r awdur Norah Isaac gawson ni gan **Myrddin**, a'i chartref hi yng Nghaerfyrddin yw'r man cychwyn. Mae 'na gynganeddwr rhugl iawn yma, a dotiais at y llinellau hyn: 'Aw'r a mwy, yn chwarae mig / am oriau 'Mhentremeurig / oriau ddoe ddaeth o'r ardd hon / hi yw gardd hwiangerddi!' Efalli y gellid bod wedi chwysu rhyw damaid yn fwy i dynhau'r dweud yma a thraw, ond mae hon yn deyrnged gywrain ac addas er cof am Norah Isaac heb os.

Morbryn yw'r bardd nesa, brodor o ardal Wrecsam sy'n ymfalchïo yn ei fro enedigol. Ond mae 'na dristwch yn ei gerdd hefyd wrth iddo gofio am drychineb Gresffordd. Rwy'n hoff iawn o'r ffordd y llwyddodd i droi anobaith yr hanes hwnnw yn orfoledd erbyn heddiw wrth weld llwyddiant y tîm pêl-droed, a'r ffordd mae hanes yr ardal, er yn chwerw weithiau, wedi chwarae ei ran yn hynny hefyd. Dyma gerdd annwyl a didwyll iawn.

Mae'r ffugenw **PADI** yn glwi i ni wrth dafoli'r gerdd hon. Mae'r bardd ar daith yn lwerddon gyda dau arall, yn gadael Kilkenny am Graig na Manach i dorri syched a chyfarfod cymeriadau'r ardal. Mae'n gynganeddwr sionc, mwynheais y ddwy linell olaf yn fawr: 'awn o oriau pleserus - bore mwyn / at y gwanwyn mewn peint o Guinness.'

Rydym yng nghwmni cynganeddwr da iawn arall gyda **A470**. Mae'n wreiddiol iawn ei syniad, yn cydosod dwy daith, sef taith y bardd ar yr A470 gyda thaith ffoadur sy'n ceisio sianc rhag rhyfel. Un o'r uchafbwyntiau ei gerdd i mi oedd y gyfres o englynion sy'n darlunio tensiwn rhwng Cymry ar bwnc mewnfudo, sydd, eto, yn wreiddiol tu hwnt. Weithau roeddwn i'n teimlo ei fod â rheolaeth lwyr dros y gynghanedd a weithiau roedd hi ffordd-arall-rownd. Ond mae 'na chwip o gynganeddwr a bardd yma ar ei orau.

Canodd **Crwydryn** am olygfa drist lle mae mam mewn hosbis ym Mhenarth. Mae ei mab ar ei ffordd i geisio ei gweld hi cyn iddi fynd yn rhy hwyr yn y dydd, ac mae'r bardd yn defnyddio'r wers rydd gynganeddol yn effeithiol iawn er mwyn dweud ei ddweud. Mae yma ganu teimladwy ac rydym yn gyd-deithwyr ar daith emosiynol y mab drwyddi draw.

Un arall sydd â dawn dweud yn ddi-os yw **Gwreichionen**. Mae'n canu'n annwyl i rywun sy'n dioddef gyda dementia, ond yn y caniad cyntaf, rydym yn gweld yr unigolyn hwnnw yn ei anterth: 'Rhyddheast y gallu a glowyd ym mhob un gell / gan sgleinio'r haul â'th ddawn, i ddallu dy gyfoedion oll.' Dyma fardd gwreiddiol, difyr, ac roeddwn wrth fy modd hefyd gyda're llinell ganlynol i ddisgrifio creulondeb y cyflwr: 'y frwydr drosodd cyn i'r ymladd ddechrau'. Ond mae'n gorffen ar nodyn gobeithiol drwy ddweud bod yr unigolyn wedi gadael ei farc drwy ei deulu. Da iawn.

Atgofion o'i blentyndod a gawn gan **Hafoty**. Llwybrau a thymhorau'r ffermwr sydd yma, ac rydym yn symud yn sydyn drwy'r gerdd drwy wahanol adegau o fywyd yr amaethwr hwn. O ran hynny, mae Hafoty wedi llwyddo'n eithriadol i ddal holl gwrs ei fywyd mewn un gerdd, ac, ar yr un pryd, ein hatgoffa ni pa mor frau ydy'n bywydau ni oll. Mae'r llinellau hyn sy'n dangos y ffermwr yn rhoi'r gorau i'w waith yn codi ias: 'Gorffwys y cap, chwiban a ffon oll gerbron yr aelwyd.'

Gorsafoedd tiwb Llundain yw isdeitlau cerddi **Harry Beck**, sy'n benthyg ei ffugenw wrth gwrs gan y sawl a ddyfeisiodd yr we a'r system anhygoel honno. Mae'n canu mawl i Harry Beck, a dyma fardd teithiol sy'n canu'n fyw ac yn ffres iawn. Mae hefyd yn gorffen mewn ffordd ddifyr drwy ddweud bod llinell Hammersmith and City'n annwyl iddo oherwydd dyma'r llinell sy'n ei arwain yn ôl at ei gariad.

Mae **Maldwyn** yn ymateb i erthygl a welodd yn y Guardian, erthygl oedd yn adrodd hanes arweinwyr crefyddol yn ymweld â Kyiv. Hoffais y llinell 'Y Bod ei hun ar brawf' wrth i'r Wcraniaid ofyn ydy Duw wedi eu gadael nhw, ond mae ychydig o or-ganu yma a theimlais braidd fod y gerdd yn tro yn ei hunfan. Ond mae'n canu'n ddidwyl, ac i thema bwysig.

Cyfarchiad i Dydecho Sant a gawn gan **Mochyn Mwsog** - testun difyr a cherdd wnaeth addysgu'r beirniad yma! Fe wnes i fwynhau dysgu am ei gampau wrth ddysgu i arwain, troi'r tir a hel afalau, ond mae angen gofal ar brydiau nad yw'r gerdd yn troi'n ddarn o ryddiaith storiol.

Mae **Lieu o'r Llan** yn dechrau gyda marwolaeth rhywun annwyl yng ngolygfa gyntaf ei gerdd, a dysgwn mai marwnadu ei fab y mae. Mae yma ganu tyner, gofalus i'w fab, ac roedd y darn lle cyfeirir at y tad yn dilyn ei fab mewn hers pan mai fel arall y dylai pethau fod yn ysgytwol. Dros gwrs y gerdd, cawn ddod i ddysgu ychydig yn fwy am yr ymadawedig, fel ei fod wedi ymweld â 96 o wledydd yn ystod ei oes, a bod bwrsariaeth er cof amdano bellach. Dyma gerddi teimladwy ac annwyl iawn gan dad er cof am ei fab.

A dyma ni'n cyrraedd felly y tri uchaf, sef Noddfa, ESAU, a Crwydryn Arfordir Cymru. Mi ddechreuaf gyda **Noddfa**.

Dyma awdlwr cryf iawn sy'n canu'n nerthol i'r gymued. Dyma'i englyn cyntaf:

Ar ein taith, mae cymdeithas –
y lle hwn yn llawn pob cymwynas,
yn gwrdd sy'n cynnig urddas;
a'i eiriau o'n cynnig gras.

Yna mae'n canu i rai o gymeriadau ei ffilltir sgwar, fel Ifan Tŷ Mawr a Jenny Arfryn. Dotiais at y darn yma o'r cywydd i Ifan Tŷ Mawr:

Yn ifanc gawsoch hafau
nwydus, direidus. Chi'ch dau
yn gyrru'n llawn o gariad -
dyddiau ar lwybrau cefn gwlad;
hudol oes ar hyd y lôn
'roedd adwy i'ch breuddwydion.

Rydym yn dysgu wedyn bod Ifan wedi heneiddio ac yn frau erbyn hyn, ac mae'r canu yma'n dynn ac yn deimladwy tu hwnt. Mae yma ambell lithriad ieithyddol 'oes dieflig' yn lle 'ddieflig', er enghraifft, ond mae'n gorffen gyda hir-a-thoddais campus, sy'n crisialu'r awdl loyw yma:

Oedwn o'n taith i geisio cymdeithas
garedig rhag oes dieflig, diflas.
Yma mae anian rhyw hael gymwynas
emynau a thonau yn creu perthynas;
oedi yno, a chael dinas – heddwch
a gweddi harddwch ac awydd urddas.

Mae **ESAU** yn dechrau yn ngwersyll Treblinka, y man echrydus hwnnw o'r Ail Ryfel Byd. Mae'r llinell gyntaf yn ysgubol: 'Cerddodd y sipsi a'r lldew ar dy hyd, / cyn ychwanegu o'u llwch i'th fodolaeth' dyma linell gwbl nodweddiadol o'r bardd yma, bardd sy'n gallu tynnu lluniau gyda geiriau ac yn gallu ein syfrdanu a'n sobri ni mewn dim o ofod. Dwi'n hoff iawn o'r fforff mae'r bardd yn cyfarch Treblinka yn y person cyntaf, mae'n llwyddo i wneud yr holl gerdd yn fyw drwy hynny: 'Cerddodd mamau noeth drosot / yn ysu am olchi gwallt a lladd llau.' cefais fy symud droeon gan y llinellau yma, fel 'Brawd yn gwadu brawd er mwyn byw, a'r meirw yn claddu ei gilydd'. Yna, symudwn at heddiw, a'r ffaith bod rhai yn holi a wnaeth y fath beth ddigwydd go-iawn, a gofyn hynny gan mor flodeuog ydy'r gwersyll erbyn hyn. Yn ail ran y gerdd, rydym yn symud i Rafa, ac mae'r gymhariaeth gyda beth sy'n digwydd yn yr ardal heddiw gyda stori Herod yn ddifyr iawn. Yn fy marn i, doedd y caniad i Rafa ddim cweit yn cyrraedd yr uhcelfannau mor aml â'r olygfa yn Treblinka, ond mae yna ddweud ysgybol fan hyn hefyd: 'Nid oedd bom yn dewis pwy o'r plant y tro hwn oedd yr Iesu' er enghraifft. Diolch i ESAU am ei gwmni gwefreiddiol.

Fel mae ffugenw **Crwydryn Arfordir Cymru** yn ei awgrymu, dyma fardd sy'n hoff o grwydro. Yn syth, gwelwn ein bod yng nghwmni meistr cynganeddol fan hyn: 'ac ar wib o Gaer i Went / rwyf yma yn byw'r foment.' Yn wir, taith o amgylch Llwybr godidog arfordir Cymru yw'r awdl hon i bob pwrpwas, ond mae'n gymaint mwy na hynny hefyd. Yn yr ail ganiad, cawn restr o'r lleoedd y mae'n ymweld â nhw ar ddechrau'r daith: Fflint, Afon Dyfrdwy, Rhyl, Deganwy, Conwy, Porthaethwy. Mae rhestru yn gallu bod yn gêm beryg i'r cynganeddwyr, ond does dim byd rhwydd am y ffordd mae'r bardd yn mynd ati i blethu'r enwau hyn i'w gân, ac mae cael 'rhain i ffitio a bodloni'r mydr ac odl yn gryn gamp. Mae un linell wrth iddo gyrraedd Ynys Môn - un llinell - ond llinell ysgybo o gynghanedd groes o gyswllt: 'Mynwes Mam yw Ynys Môn'

Wrth i'r awdl fynd yn ei blaen, mae'n ystyried, oherwydd mor galed yw'r daith, roi'r ffidil yn y to, a rhoi'r gorau i'w bererindod, ond mae'n bwrw ati:

Wrth fy hun, gwnaf adduned - dewr fyddaf
Y poen a gelaf dan ffrynt pengaled.

Mae'r bardd o grwydryn yn gwneud ei ffordd lawr i Mwnt ac yna Aberteifi, ac yn fuan wedyn rydan ni'n cael yr egnlyn milwr cwbl odidog yma wrth iddi nosi:

'Hŷn y sêr na'm hanes i,
Hŷn na'r heulwen a'r heli
Hŷn na'r lloer a llanw'r lli.'

Yna mi awn lawr gydag englyn gwych arall i gyfeiriad TATA Steel ym Mhort Talbot. Ac fel y soniais o'r cychwyn, rydym yng nghwmni meistr yma sydd wedi cyflawni cryn gamp o fynd â ni o gwmpas ein gwlad ar ffurf awdl, heb i'r peth droi'n fwrn. Chwarae teg iddo.

Pwy felly sy'n mynd â hi? Ar y cyfan, roedd ESAU a Crwydryn Arfordir Cymru'n fwy cyson eu hergydion ac yn eu safin drwy'u cerddi na Noddfa. Ond mi fues i'n pendroni'n hir rhwng golygfa sinematig ESAU yn Treblinka a champ gelfyddydol Crwydryn Arfordir Cymru yn nes at adref. Byddwn wedi bod yn hapus iawn i gadeirio'r ddau, ond un Gadair sydd gwaetha'r modd. Ac am y safon drwy'r gerdd ac am linellu ysgubol, eiddo Crwydryn Arfordir Cymru y'w Gadair honno eleni. Llongyfarchiadau mawr iawn.